

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	18 Tachwedd 2015
<b>TEITL</b>	Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru
<b>PWRPAS</b>	Gwybyddu Aelodau
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr Wybodaeth

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru.

## **2.0 YR ADOLYGIAD O DIRWEDDAU DYNODEDIG**

- 2.1 Yn 2014 sefydlwyd Panel o 3 i gynnal Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru, sef Yr Athro Terry Marsden, Dr Ruth Williams a Mr John Lloyd Jones.
- 2.2 Roedd Cam 1 o'r Adolygiad yn edrych ar bwrpas y tirluniau dynodedig a manteision/ anfanteision categoreiddio Tirluniau Dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad. Adroddwyd ar casgliadau Cam 1 yr Adolygiad yn Mawrth 2015 ac adeg hynny penderfynwyd anfon rhai sylwadau ychwanegol i sylw'r Panel.

## **3.0 CAM 2 YR ADOLYGIAD**

- 3.1 Aeth y Panel ymlaen wedyn i ystyried Cam 2 o'r Adolygiad – oedd yn ystyried y modd mae'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yn cael eu rheoli a'u llywodraethu. Cyflwynwyd papurau cefndirol oedd yn rhoi gwybodaeth am Gam 2 yr Adolygiad yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar 24ain o Fehefin 2015.
- 3.2 Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ar nifer o sylwadau i'r gwneud o ran Rhan 2 yr Adolygiad a bu i'r Uned AHNE eu hanfon ymlaen i sylw'r Panel. Gwnaed sylwadau ar Ran 2 hefyd gan AHNE eraill Cymru, Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol a nifer o sefydliadau eraill oedd gan ddiddordeb yn y mater. Yn ogystal, cynhaliodd y Panel nifer o gyfarfodydd trafod gyda unigolion a sefydliadau.

## **4.0 ADRODDIAD TERFYNOL**

- 4.1 Erbyn hyn mae'r Panel Adolygu wedi cwblhau yr Adroddiad Terfynol ac wedi ei chyflwyno i Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae'n Adroddiad swmpus a thrylwyr sydd yn cynnwys 69 o Argymhellion. Mae crynodeb o'r Adroddiad wedi ei chynnwys fel Atodiad a gellir derbyn copi o'r adroddiad llawn gan yr Uned AHNE.

4.2 Gwnaed Datganiad am yr Adolygiad gan y Gweinidog Carl Sargeant ar Hydref 29; gellir gweld copi o'r Datganiad yn yr Atodiad. Ymysg pethau eraill mae'r Datganid yn nodi:

“Rwyf am i'r ardaloedd hyn – ardaloedd y mae eu harddwch godidog yn cael ei werthfawrogi - fod yn dirweddau llawn bywyd sy'n cynnwys cymunedau bywiog a chadarn lle mae digon o gyfleoedd i wneud gweithgareddau yn yr awyr agored ac ecosystemau cyfoethog...

Mae'r adroddiad yn gwneud 69 argymhelliad sy'n cynnwys llawer iawn o gynigion a sylwadau ar ddibenion, egwyddorion, gweledigaeth, modelau, cynllunio a chyllido. Oherwydd maint a chwmpas sylweddol yr argymhellion, bydd yn rhaid mynd ati i wneud rhagor o waith i ddeall y budd y gallan nhw greu a'r canlyniadau. “

4.3 Mae yna oblygiadau pellgyrhaeddol i'r argymhellion sydd yn yr Adroddiad a'r disgwyliadau sydd ar y Tirweddau Dynodedig ar gyfer y dyfodol. Er mwyn symud ymlaen gyda'r mater mae'r Gweinidog wedi nodi y bydd Gweithgor, dan arweinyddiaeth yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas, yn cael ei sefydlu i ystyried yr argymhellion.

## **5.0 ARGYMHELLIAD**

5.1 Derbyn yr wybodaeth

### ATODIADAU

Copi o ddatganiad Llywodraeth Cymru, Hydrefn 29ain 2015

Crynodeb o'r Adroddiad Terfynol ar yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru